OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 46

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

## RHAN 3

### Diwygiadau eraill i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Ychwanegu gwledydd at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol**

**4.** Yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lle priodol mewnosoder—

"Ariannin"

"Brasil"

"Bolivia"

"Chile"

"Colombia"

"Ecuador"

"Guiana Ffrengig"

"Guyana"

"Gweriniaeth Cabo Verde"

"Gweriniaeth Panamá"

"Paraguay"

"Periw"

"Portiwgal"

"Suriname"

"Uruguay"

"Venezuela".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.** Nid yw rheoliad 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

**Diwygio rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.** Yn rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan, o ran P—

(a) mae'n weithiwr cludiant ffyrdd (o fewn yr ystyr a roddir ym mharagraff 6 o Atodlen 2),

(b) bu ddiwethaf ym Mhortiwgal o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, ac

(c) nid yw, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi bod mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall a restrir yn Atodlen 3A."

**Diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**7.** Ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, hepgorer "yn unol â Chonfensiwn Llafur Morwrol 2006 neu Gonfensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007".